# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2016

Amser: 14.00 - 14.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3669

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Gillian Body, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Jeremy Morgan, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pumed Cynulliad.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AC a Rhun ap Iorwerth AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

1.3 Cyflwynodd y swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor eu hunain i'r Aelodau.

1.4 Cyflwynodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ei hun i'r Aelodau.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Cyflwyniad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapurau 1 a 2 i'r Pwyllgor. Ystyriodd yr Aelodau y papurau a chytuno i graffu ar gyfrifon blynyddol nifer o sefydliadau a ariennir gan drethdalwyr yn ystod tymor yr hydref.

3.2 Eglurodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei rôl a'i gyfrifoldebau cyswllt â'r Pwyllgor, a chyflwynodd bapurau 3 a 4.

3.3 Nododd y Pwyllgor ei gyfrifoldebau ac ar ôl trafodaeth, cytunodd yr Aelodau ar raglen waith gychwynnol gan awgrymu nifer o feysydd posibl ar gyfer ymchwiliad dan arweiniad y Pwyllgor.

3.4 Yn dilyn awgrym, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i ofyn i’r Pwyllgor drafod cyfrifon blynyddol y BBC pan fydd yn edrych ar adroddiad blynyddol y sefydliad.